Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynwch am:*
*Ffôn:*
*E-Bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 4 Ionawr 2021

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Fel y gwyddoch eisoes, mae dull Abertawe o ddychwelyd i ysgolion ym mis Ionawr wedi'i ddiwygio, gyda ni ar hyn o bryd yn gohirio dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb tan 11 Ionawr ar y cynharaf.

Nid yw'r sefyllfa o ran gofal plant wedi newid ar hyn o bryd a bydd ysgolion yn ceisio darparu gwasanaeth i'n plant mwyaf bregus a'r gweithwyr allweddol hynny nad oes ganddynt ddewis arall ar gael iddynt o 6 Ionawr ymlaen. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio'r ddarpariaeth hon a lle bynnag y bo'n bosibl dylai disgyblion aros adref.

Bydd yr oedi i ddysgu wyneb yn wyneb yn caniatáu amser i ystyried gwybodaeth wedi'i diweddaru am Covid-19, gan gynnwys yr amrywiolyn newydd. Bydd pob ysgol yn darparu dysgu o bell o ddydd Mercher 6 Ionawr. Gellir cyflwyno dysgu o bell mewn sawl ffordd a defnyddir nifer o wahanol ddulliau o fewn ac ar draws ein hysgolion. Bydd y dulliau hyn yn cynnwys gwersi "byw", gwersi wedi'u recordio, pecynnau gwaith ac ati.

Darperir taliadau ychwanegol neu barseli bwyd ar gyfer dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod dysgu gartref.

Bydd y sefyllfa gyffredinol yn Abertawe yn cael ei hadolygu yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Yn gywir

Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro

To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL